LANEq319

# Cynnal gweithdrefnau cae rasio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynnal gweithdrefnau cae rasio wrth gyrraedd y cae rasio a chyn ac ar ôl y ras. Dylech allu cynnal y gweithdrefnau cyn rasio, cwblhau dogfennau'r datganiad, cydymffurfio â gweithdrefnau diogelwch a chysylltu â phersonél eraill. Bydd angen i chi hefyd allu rhoi'r ceffyl a'r offer priodol i'r joci a chwblhau'r gweithdrefnau ar ôl rasio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal y gweithdrefnau cyn rasio yn gywir
2. cwblhau dogfennau'r datganiad yn gywir a'u rhoi i'r person priodol
3. cydymffurfio â gofynion diogelwch y cae rasio bob amser
4. creu dogfennau perthnasol ar gyfer swyddogion y cae rasio
5. cynnal y cyswllt angenrheidiol gyda phersonél perthnasol bob amser
6. darparu'r dillad a'r offer sydd yn ofynnol gan y cae rasio a'r joci, yn unol â gofynion y ras
7. cwblhau'r gweithdrefnau ar ôl rasio yn gywir
8. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gweithdrefnau cyn rasio, yn cynnwys; datganiadau, pasys stabl a phasbortau, a gweithdrefnau ar gyfer cyfrwyo
2. rheolau perthnasol rasio a sut y cânt eu cymhwyso
3. gweithdrefnau a gofynion diogelwch y cae rasio
4. y personél y bydd angen i chi gysylltu â nhw, yn cynnwys; hyfforddwyr, jocis, swyddogion a pherchnogion
5. y dillad a'r offer sy'n ofynnol gan y cae rasio a'r joci
6. y camau i'w cymryd os bydd ymchwiliad
7. y rhesymau pam y mae'n rhaid pwyso'r harneisiau allan
8. y gweithdrefnau ar ôl y ras, yn cynnwys; ôl-ofal y ceffyl, casglu lliwiau, rasys gwerthu a rasys hawlio
9. rheolau atal cyffuriau a'r arferion sy'n berthnasol iddynt
10. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
11. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Darparu'r dillad a'r offer canlynol:

- cyfrwy
- harneisiau
- lliwiau

Cynnal gweithdrefnau cae rasio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq319 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; ceffylau rasio; gweithdrefnau |